Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Seilwaith (Cymru)
## Crynodeb o'r Bil

Medi 2023



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Elfyn.Henderson@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Seilwaith (Cymru)
## Crynodeb o'r Bil

Medi 2023

**Awdur:**
Elfyn Henderson

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 1**

**2. Cipolwg ar y Bil ..... 2**

**3. Crynodeb o'r darpariaethau ..... 3**

Rhan 1 – Prosiectau seilwaith arwyddocaol ..... 3

Rhan 2 – Gofyniad am gydsyniad seilwaith ..... 5

Rhan 3 – Gwneud cais am gydsyniad seilwaith ..... 6

Rhan 4 – Archwilio ceisiadau ..... 8

Rhan 5 – Penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith ..... 11

Rhan 6 – Gorchmynion cydsyniad seilwaith ..... 13

Rhan 7 – Gorfodi ..... 18

Rhan 8 – Swyddogaethau atodol ..... 21

Rhan 9 – Darpariaethau cyffredinol ..... 24

Atodlen 1 - Darpariaeth sy'n ymwneud â datblygiad neu faterion sy'n atodol iddo ..... 26

Atodlen 2 - Digolledu am newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith ..... 26

Atodlen 3 - Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau ..... 26

**4. Atodiad: Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol, trothwyon a meini prawf cymhwysol ..... 27**

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Fil Seilwaith (Cymru)** gerbron y Senedd ar 12 Mehefin 2023.

Mae'r Bil yn diwygio'r ffordd y caiff seilwaith ei gydsynio yng Nghymru drwy sefydlu proses unedig, o'r enw **cydsyniad seilwaith**, ar gyfer mathau penodol o seilwaith mawr o'r enw **prosiectau seilwaith arwyddocaol**. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff, dŵr a nwy uwchben trothwyon maint neu gapasiti penodol ar dir ac yn y môr yng Nghymru (a elwir yn **ardal forol Cymru)**.

Mae cydsyniad seilwaith yn disodli cyfundrefnau statudol presennol ac yn lleihau nifer yr awdurdodiadau sydd eu hangen i adeiladu a gweithredu prosiect seilwaith arwyddocaol drwy eu hymgorffori mewn un cydsyniad.

Wrth gyflwyno'r Bil, dywedodd **Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd**, ei fod yn gam pwysig tuag at **darged allyriadau 'sero net' 2050 Llywodraeth Cymru**, ac yn:

> *... sicrhau proses dryloyw a chyson sy'n galluogi cymunedau lleol i ddeall yn well y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a chwarae rhan ynddynt, gan hefyd roi sicrwydd wrth wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar bolisi clir.*

Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y **bydd proses newydd yn lleihau costau** ar gyfer datblygwyr, Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgynghoreion statudol a'r Llywodraeth ei hun. Mae'n dweud nad oes modd mesur costau i gymunedau oherwydd bod cymunedau a'u hymatebion i brosiectau penodol yn amrywio.

Mae'r Bil yn dilyn **ymgynghoriad yn 2018**. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn ein **herthygl flaenorol**.

Mae'r Bil ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i **broses ddeddfwriaethol y Senedd**. Bydd y Gweinidog yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar **6 Gorffennaf 2023**. **Ymgynghorodd y Pwyllgor ar y Bil dros yr haf** a bydd yn cynnal **sesiynau tystiolaeth** yn yr hydref.

### Sut i ddefnyddio'r Crynodeb hwn o'r Bil

Nid yw'r ddogfen hon yn grynodeb cynhwysfawr o bob agwedd ar y Bil. Mae i'w defnyddio'n electronig ac i gyfeirio at ragor o fanylion.

Yn yr adran crynodeb o'r darpariaethau, mae testun rhif yr adran (e.e. **adran 1**)

yn rhoi linc i'r adran berthnasol o'r Bil. Mae'r testun sy'n dilyn yn cynnwys linc i'r nodiadau esboniadol lle y ceir rhagor o fanylion (e.e. **mae'r datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol**). Mae lincs hefyd i wybodaeth berthnasol arall.

## 2. Cipolwg ar y Bil

Mae gan y Bil 144 o adrannau, wedi'u trefnu'n naw rhan, ac mae ganddo dair atodlen:

- **Rhan 1 - Prosiectau seilwaith arwyddocaol**
- **Rhan 2 - Gofyniad am gydsyniad seilwaith**
- **Rhan 3 - Gwneud cais am gydsyniad seilwaith**
- **Rhan 4 - Archwilio ceisiadau**
- **Rhan 5 - Penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith**
- **Rhan 6 - Gorchmynion cydsyniad seilwaith**
- **Rhan 7 - Gorfodi**
- **Rhan 8 - Swyddogaethau atodol**
- **Rhan 9 - Darpariaethau cyffredinol**
- **Atodlen 1 - Darpariaeth sy'n ymwneud â datblygiad neu faterion sy'n atodol iddo**
- **Atodlen 2 - Digolledu am newid neu ddirymu gorchmunion cydsyniad seilwaith**
- **Atodlen 3 - Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau**

Mae'r Bil yn cynnwys nifer fawr o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.

Mae'r **Memorandwm Esboniadol** yn cynnwys tablau sy'n nodi'r pwerau hyn a chyfiawnhad Llywodraeth Cymru drostynt – **tabl is-ddeddfwriaeth**, **tabl cyfarwyddydau a meini prawf a gyhoeddir.**

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi **datganiad o fwriad polisi** ar gyfer is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil.

# 3. Crynodeb o'r darpariaethau

## Rhan 1 – Prosiectau seilwaith arwyddocaol

### Term allweddol

Mae **adran 1** yn datgan bod **datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol** os yw:

- yn dod o fewn un o'r diffiniadau a bennir yn Rhan 1 (adrannau 2 i 16) o'r Bil;
- wedi'i bennu felly mewn cyfarwyddyd a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22; neu
- wedi'i bennu fel prosiect seilwaith arwyddocaol yn **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru**.

### Ynni

Mae **adran 2** yn pennu pryd y mae **seilwaith trydan** yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

Mae **adran 3** yn pennu pryd y mae datblygiad sy'n gysylltiedig â **chyfleusterau nwy naturiol hylifedig** yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

Mae **adran 4** yn pennu pryd y mae datblygiad sy'n gysylltiedig â **chyfleusterau derbyn nwy** yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

Mae **adran 5** yn pennu pryd y mae **hollti hydrolig am olew a nwy a nwyeiddio glo** yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

Mae **adran 6** yn datgan bod creu **mwynglawdd glo brig** neu gloddio a gweithio glo o fwynglawdd brig yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

### Trafnidiaeth

Mae **adran 7** yn pennu pryd y mae adeiladu ac addasu neu wella **priffordd** yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

Mae **adran 8** yn pennu pryd y mae adeiladu neu addasu **rheilffordd** yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

Mae **adran 9** yn pennu pryd y mae adeiladu neu addasu **cyfnewidfa nwyddau rheilffordd** yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

Mae **adran 10** yn pennu pryd y mae adeiladu neu addasu **cyfleuster harbwr** yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

Mae **adran 11** yn pennu pryd y mae adeiladu neu addasu **maes awyr** yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

## Dŵr

Mae **adran 12** yn pennu pryd y mae datblygiad sy'n ymwneud ag **argaeau a chronfeydd dŵr** yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

Mae **adran 13** yn pennu pryd y mae **trosglwyddo adnoddau dŵr** yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

## Dŵr gwastraff

Mae **adran 14** yn pennu pryd y mae adeiladu neu addasu **gwaith trin dŵr gwastraff** yn brosiect seilwaith arwyddocaol. Mae hefyd yn pennu pryd y mae adeiladu neu addasu seilwaith ar gyfer trosglwyddo neu storio dŵr gwastraff yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

## Gwastraff

Mae **adran 15** yn pennu pryd y mae adeiladu neu addasu **cyfleuster gwastraff peryglus** yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

Mae **adran 16** yn pennu pryd y mae datblygiad sy'n ymwneud â **chyfleuster gwaredu daearegol gwastraff ymbelydrol** yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

Ceir tabl sy'n dangos y trothwyon a meini prawf cymhwysol ar gyfer y mathau o seilwaith a bennir fel prosiect seilwaith arwyddocaol yn adrannau 2 i 16 yn yr **atodiad i'r crynodeb hwn**.

## Pŵer i ddiwygio

Mae **adran 17** yn caniatáu i Weinidogion Cymru **ddiwygio Rhan 1 drwy reoliadau** i ychwanegu math newydd o brosiect at y diffiniad o brosiect seilwaith arwyddocaol neu i amrywio neu ddileu'r prosiectau seilwaith arwyddocaol presennol a ddiffinnir yn y Bil. Dim ond os ydynt ym meysydd ynni, atal llifogydd, mwynau, cludiant, dŵr, dŵr gwastraff a gwastraff y caniateir ychwanegu neu amrywio prosiectau.

### Dehongli

Mae **adran 18** yn egluro pan fo **prosiect trawsffiniol** yn rhannol yng Nghymru neu **ardal forol Cymru** mai dim ond ar gyfer y rhan o'r datblygiad a fydd yn digwydd yng Nghymru neu ardal forol Cymru y mae angen cydsyniad seilwaith.

## Rhan 2 – Gofyniad am gydsyniad seilwaith

### Y gofyniad

Mae **adran 19** yn ei gwneud yn ofynnol **y ceir cydsyniad Gweinidogion Cymru ("cydsyniad seilwaith")** ar gyfer datblygiad sy'n brosiect seilwaith arwyddocaol, neu'n rhan o brosiect seilwaith arwyddocaol.

Mae **adran 20** yn rhestru'r cydsyniadau, gorchmynion ac awdurdodiadau presennol **y mae cydsyniad seilwaith yn eu disodli**.

Mae'r rhain yn cynnwys caniatâd cynllunio, a chydsyniadau, gorchmynion ac awdurdodiadau amrywiol o dan **Ddeddf Trydan 1989**, **Deddf yr Amglychedd Hanesyddol (Cymru) 2023**, **Deddf Harbyrau 1964**, **Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992**, **Deddf Priffyrdd 1980** a **Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991**.

### Pwerau i newid y gofyniad neu ei effaith

Mae **adran 21**, ymhlith pethau eraill, yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio adran 20 er mwyn **ychwanegu neu ddileu math o gydsyniad** neu er mwyn amrywio'r achosion y mae math o gydsyniad yn dod o fewn adran 20.

Mae **adran 22** yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi **cyfarwyddyd sy'n pennu bod datblygiad penodol yn brosiect seilwaith arwyddocaol,** os ydynt o'r farn ei fod o arwyddocâd cenedlaethol ac o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau.

Mae'r adran hon hefyd yn grymuso Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod y gwnaed cais iddo ddarparu gwybodaeth benodol i'w galluogi i wneud y cyfarwyddyd.

Mae **adran 23** yn datgan, os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 22, fod ganddynt y pŵer i gyfarwyddo **cais i gael ei drin fel cais am gydsyniad seilwaith** neu gyfarwyddo person sy'n cynnig cais i'w drin fel cais am gydsyniad seilwaith.

Mae **adran 24** yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi **cyfarwyddyd sy'n pennu na ddylid dosbarthu datblygiad a fyddai'n brosiect seilwaith arwyddocaol fel arall yn brosiect seilwaith arwyddocaol**.

Mae **adran 25** yn dweud y caniateir rhoi cyfarwyddyd a wneir o dan adrannau 22 i 24 **yn ddarostyngedig i amodau ac y caiff bennu o fewn pa gyfnod** y mae'n cael effaith.

Caniateir rhoi cyfarwyddyd a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adrannau hyn ar archiad datblygwr neu'n unochrog. Rhaid i Weinidogion Cymru roi rhesymau dros eu penderfyniad i roi neu i beidio â rhoi cyfarwyddyd y gwnaed archiad amdano i'r person a wnaeth yr archiad.

Mae **adran 26** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru **wneud rheoliadau ynghylch materion gweithdrefnol sy'n ymwneud â chyfarwyddydau** o dan adrannau 22 i 24.

## Rhan 3 – Gwneud cais am gydsyniad seilwaith

### Cymorth i geisyddion

Mae **adran 27** yn rhoi **pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gwasanaethau cyn gwneud cais** gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru. Bwriad gwasanaethau cyn gwneud cais yw cynorthwyo darpar ymgeiswyr cyn cyflwyno cais am gydsyniad seilwaith.

Mae **adran 28** yn galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi **ceisydd am gydsyniad seilwaith i gyflwyno hysbysiad i bersonau penodedig penodol** I gael enw a chyfeiriad unrhyw berson y mae derbynnydd yr hysbysiad yn credu ei fod yn berchennog neu'n feddiannwr y tir neu â rhyw fuddiant yn y tir neu bŵer drosto.

Diben hyn yw galluogi'r ceisydd i gydymffurfio â darpariaethau adran 29 (darpariaethau ynghylch hysbysu am gais arfaethedig), adran 30 (darpariaethau ynghylch ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd cyn gwneud cais), ac adrannau 61 i 69 (darpariaethau mewn gorchmynion sy'n awdurdodi pryniant gorfodol), neu ddarpariaethau a wneir oddi tanynt.

Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau perthnasol, ac yn ei gwneud yn drosedd pan na fo person wedi cydymffurfio â hysbysiad a roddir o dan yr adran. Mae'r drosedd yn drosedd ddiannod y caniateir rhoi dirwy yn ei chylch yn dilyn euogfarn.

## Y weithdrefn cyn gwneud cais

Mae **adran 29** yn nodi'r broses ar gyfer **hysbysu am gais newydd am gydsyniad seilwaith**. Rhaid i'r darpar geisydd hysbysu Gweinidogion Cymru, pob awdurdod cynllunio lleol ar gyfer yr ardal y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddi, a phersonau eraill a ragnodir mewn rheoliadau.

Os yw'r datblygiad arfaethedig yn ardal forol Cymru, mae'n ofynnol i'r darpar geisydd hysbysu pob awdurdod cynllunio lleol y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

Mae'r adran hon hefyd yn nodi'r broses y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn wrth ymateb i'r hysbysiad gan y darpar geisydd.

Mae **adran 30** yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n cynnig cyflwyno cais am gydsyniad seilwaith gynnal **ymgynghoriad ar gais arfaethedig cyn ei gyflwyno**. Mae hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ymwneud â sut y dylid cynnal yr ymgynghoriad.

## Y weithdrefn gwneud cais

Mae **adran 31** yn ei gwneud yn offynnol i **gais am gydsyniad seilwaith gael ei wneud i Weinidogion Cymru**. Rhaid i gais am gydsyniad seilwaith gynnwys adroddiad ymgynghoriad cyn gwneud cais a gorchymyn seilwaith drafft.

Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch, ymhlith pethau eraill, ffurf, cynnwys a phrosesu cais.

Mae **adran 32** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ar ôl cael cais am gydsyniad seilwaith, **benderfynu a ydynt yn ei dderbyn fel cais dilys ai peidio**. Rhaid iddynt roi hysbysiad o'u penderfyniad i'r ceisydd. Os nad ydynt yn ei dderbyn fel cais dilys, rhaid iddynt roi rhesymau.

Mae **adran 33** yn ei gwneud yn ofynnol i **Weinidogion Cymru hysbysu partïon penodol** pan fônt yn derbyn cais fel un dilys.

Rhaid rhoi hysbysiad i bob awdurdod cynllunio lleol a chyngor cymuned y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddo. Pan fo datblygiad yn ardal forol Cymru, rhaid hysbysu unrhyw awdurdod cynllunio lleol neu gyngor cymuned y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ei hysbysu, a rhaid rhoi hysbysiad i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi

cyhoeddusrwydd i gais fel a bennir mewn rheoliadau, gan gynnwys y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cael sylwadau. Rhaid pennu cyfnod byrraf ar gyfer sylwadau (y caniateir ei estyn) mewn rheoliadau.

Mae **adran 34** yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud **rheoliadau ynghylch hysbysiadau a chyhoeddusrwydd** sy'n ofynnol o dan adrannau 32 a 33.

Mae **adran 35** yn gwneud darpariaeth ynghylch **adroddiadau ar yr effaith leol** sy'n rhoi manylion ynghylch effaith debygol datblygiad arfaethedig o fewn ardal awdurdod cynllunio lleol a chyngor cymuned. Mae'n darparu ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol a chynghorau cymuned sy'n llunio ac yn cyflwyno adroddiadau ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru.

Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi ffurf a chynnwys adroddiad ar yr effaith leol.

Mae **adran 36** yn gwneud darpariaeth ynghylch **adroddiadau effaith ar y môr**, y mae'n rhaid iddo roi manylion am effaith debygol datblygiad arfaethedig ar yr amgylchedd morol. Mae'n gwneud darpariaeth i Corff Adnoddau Naturiol Cymru (CNC) lunio a chyflwyno adroddiadau effaith ar y môr i Weinidogion Cymru.

Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi ffurf a chynnwys adroddiad effaith ar y môr.

Mae **adran 37** yn datgan, pan fo Gweinidogion Cymru wedi derbyn cais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir, **rhaid i'r ceisydd roi i Weinidogion Cymru enwau a gwybodaeth ragnodedig arall am bersonau** â buddiant yn y tir.

Mae **adran 38** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisydd gynnal **ymgynghoriad ar gais am gydsyniad seilwaith** pan fo'n cynnwys archiad i gaffael yn orfodol dir. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth fanwl am yr wybodaeth sydd ei hangen ac amserlen yr ymgynghoriad.

## Rhan 4 – Archwilio ceisiadau

### Penodi awdurdod archwilio

Mae **adran 39** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru **benodi "awdurdod archwilio" i archwilio pob cais dilys** am gydsyniad seilwaith.

Caiff Gweinidogion Cymru benodi awdurdod archwilio i archwilio cais i ddirymu

neu newid gorchymyn cydsyniad seilwaith. Wrth benderfynu pa un a ddylid gwneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso'r meini prawf a nodir mewn dogfen y maent wedi'i chyhoeddi o dan yr adran hon.

Mae'n debygol mai **Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru** fydd yr awdurdod archwilio.

## Archwilio ceisiadau

Mae **adran 40** yn datgan bod **gan awdurdod archwilio'r swyddogaeth o archwilio cais** y'i penodwyd ar ei gyfer.

Mae **adran 41** yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod archwilio **ddyfarnu sut y bydd pob cais yn cael ei archwilio**. Caniateir cynnal archwiliad drwy sylwadau ysgrifenedig, mewn gwrandawiad, mewn ymchwiliad lleol, neu drwy unrhyw gyfuniad o'r gweithdrefnau hyn.

Mae'n ofynnol i'r awdurdod archwilio hysbysu personau a bennir mewn rheoliadau o'i ddyfarniad, ac os yw'n amrywio ei ddyfarniad. Mae hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dogfen sy'n nodi'r meini prawf y mae'r awdurdod archwilio'n eu cymhwyso wrth ddyfarnu sut y bydd cais yn cael ei archwilio.

Mae **adran 42** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud **rheoliadau ynghylch y weithdrefn i'w dilyn ar gyfer archwilio** cais.

Mae **adran 43** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ymwneud ag **awdurdodi mynd ar dir at ddiben archwilio'r tir** fel rhan o'r archwiliad o'r cais. Mae hyn yn cynnwys tir nad yw'r ceisydd yn berchen arno neu'n ei feddiannu.

Mae **adran 44** yn caniatáu i **awdurdod archwilio gynnal ymchwiliad lleol** i archwilio cais. Caiff ei gwneud yn ofynnol drwy wŷs i unrhyw berson fod yn bresennol i roi tystiolaeth, a dangos unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud ag unrhyw fater o dan sylw yn yr ymchwiliad.

Pan fo person yn gwrthod cydymffurfio â gwŷs neu'n methu â chydymffurfio â gwŷs o'r fath yn fwriadol neu'n newid yn fwriadol, yn atal yn fwriadol, yn cuddio'n fwriadol neu'n dinistrio'n fwriadol ddogfen y mae'n ofynnol iddo ei dangos, bydd wedi cyflawni trosedd a gall sefyll treial yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron. Bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn ar euogfarn.

Mae **adran 45** yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl **dystiolaeth lafar mewn ymchwiliad lleol gael ei chlywed yn gyhoeddus**, ac i'r holl dystiolaeth ddogfennol fod ar gael

i'r cyhoedd edrych arni.

Caiff Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol ("awdurdod gweinidogol") gyfarwyddo nad yw tystiolaeth lafar i'w chlywed ac nad yw dogfennau ar gael i edrych arnynt ond gan bersonau penodol (ac nid y cyhoedd) os ydynt yn fodlon y byddai datgelu'r wybodaeth i'r cyhoedd yn erbyn y buddiant cenedlaethol.

Os yw cyfarwyddyd o'r fath yn cael ei ystyried, caffi y Cwnsler Cyffredinol benodi person ("cynrychiolydd penodedig") i gynrychioli buddiannau'r personau a fyddai'n cael eu hatal rhag clywed tystiolaeth neu edrych arni.

Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn gan awdurdod gweinidogol cyn rhoi cyfarwyddyd pan geir cynrychiolydd penodedig ac ynghylch swyddogaethau cynrychiolydd penodedig.

Mae **adran 46** yn gwneud darpariaeth ynghylch **talu'r cynrychiolydd penodedig** pa un a yw ymchwiliad yn digwydd ai peidio.

Mae **adran 47** yn caniatáu i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru **benodi asesydd er mwyn cynorthwyo'r gwaith o archwilio** cais ar fater arbenigol penodol neu bwnc penodol.

Mae **adran 48** yn caniatáu i'r awdurdod archwilio neu **Weinidogion Cymru benodi bargyfreithiwr neu gyfreithiwr i ddarparu cyngor cyfreithiol** i'r awdurdod archwilio mewn cysylltiad ag archwiliad.

Mae **adran 49** yn datgan, pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar gais, fod **rhaid i awdurdod archwilio gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru ar ôl yr archwiliad**. Rhaid i'r adroddiad nodi canfyddiadau ac argymhellion yr awdurdod archwilio ynghylch y penderfyniad sydd i'w wneud ar y cais.

Mae **adran 50** yn caniatáu i Weinidogion Cymru **gyfarwyddo'r awdurdod archwilio i ailagor ei archwiliad** o gais ar ôl cael ei adroddiad. Bydd yn ofynnol i'r awdurdod archwilio gyflwyno adroddiad arall i Weinidogion Cymru ar ddiwedd yr archwiliad a ailagorwyd.

Mae **adran 51** yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud **gorchmynion ynghylch costau partïon mewn achos archwilio**, ynghylch pwy y mae rhaid iddynt dalu'r costau hyn, a sut y caniateir eu hadenill.

## Rhan 5 – Penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith

### Penderfynwr

Mae **adran 52** yn datgan bod yr **awdurdod archwilio'n penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith** o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau a bod Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar unrhyw gais arall am gydsyniad seilwaith.

Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i gyfarwyddo awdurdod archwilio i benderfynu ar gais yn lle Gweinidogion Cymru, neu y caiff Gweinidogion Cymru benderfynu ar gais yn lle awdurdod archwilio.

### Polisïau statudol a materion perthnasol eraill

Mae **adran 53** yn datgan bod **rhaid penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith yn unol** ag unrhyw ddatganiad polisi seilwaith perthnasol ("datganiad polisi perthnasol"), y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r **Cynllun Morol**.

Pan fo'r datganiad polisi perthnasol yn anghydnaws â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol neu'r Cynllun Morol, rhaid penderfynu ar y cais yn unol â'r datganiad polisi perthnasol.

Mae Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, wedi dweud mai diben datganiad polisi seilwaith yw **ymateb yn gyflym i fater sy'n dod i'r amlwg** nes y gellir ystyried y mater yn llawn yn adolygiad nesaf y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol neu'r Cynllun Morol.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol o dan **Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**. Cafodd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol cyntaf - **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 - ei gyhoeddi yn 2019**. Mae'n gynllun datblygu sy'n nodi strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol drwy'r system gynllunio.

Cafodd y **Cynllun Morol** ei gyhoeddi gyntaf gan Weinidogion Cymru yn 2019. Mae'n nodi polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy **ardal forol Cymru**.

Mae **adran 54** yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) i **roi sylw i'r canlynol wrth benderfynu ar gais** am gydsyniad seilwaith:

- adroddiad ar yr effaith leol neu adroddiad ar yr effaith forol;

- unrhyw archwiliad a gynhelir o dan Ran 4;
- unrhyw faterion a bennir mewn rheoliadau;
- unrhyw ystyriaeth berthnasol arall.

Mae **adran 55** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu **materion y caiff yr awdurdod archwilio a Gweinidogion Cymru eu diystyru** wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith.

## Yr amserlen

Mae **adran 56** yn datgan bod **rhaid i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru benderfynu ar gais o fewn 52 o wythnosau** i dderbyn cais dilys neu unrhyw gyfnod arall y cytunir arno rhwng y ceisydd a Gweinidogion Cymru.

Caiff Gweinidogion Cymru estyn, drwy gyfarwyddyd, y cyfnod ar gyfer penderfynu ar gais a chânt wneud hyn sawl gwaith.

Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu adroddiadau blynyddol i'r Senedd ar eu cydymffurfedd â'r ddyletswydd a osodir, ac arfer y swyddogaethau a roddir, gan yr adran hon.

Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu diwygio'r cyfnod 52 o wythnosau gan reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol** (sy'n golygu bod rhaid i'r Senedd bleidleisio o blaid y rheoliadau iddynt ddod yn gyfraith).

## Y penderfyniad

Mae **adran 57** yn ei gwneud yn ofynnol pan fo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ar gais, fod rhaid iddynt naill ai **wneud gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad seilwaith neu wrthod cydsyniad seilwaith**. Pan fydd awdurdod archwilio wedi penderfynu ar gais, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol iddo naill ai hysbysu Gweinidogion Cymru o'i benderfyniad bod gorchymyn sy'n rhoi cydsynad seilwaith i'w wneud neu wrthod cydsyniad seilwaith.

Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad gan yr awdurdod archwilio bod gorchymyn cydsyniad seilwaith i'w wneud, rhaid i Weinidogion Cymru wneud y gorchymyn.

Mae **adran 58** yn pennu **y caniateir rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad** y mae cydsyniad seilwaith yn ofynnol ar ei gyfer (gweler adran 19) yn ogystal â datblygiad sy'n gysylltiedig ag ef, sef "datblygiad cysylltiedig".

Os rhoddir cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad cysylltiedig, nid oes angen cael yr un o'r cydsyniadau a grybwyllir yn adran 20 ar gyfer y datblygiad cysylltiedig.

Mae **adran 59** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio **datganiad o'u rhesymau** naill ai i wneud gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad seilwaith neu wrthod cydsyniad seilwaith.

Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod archwilio lunio datganiad o'i resymau dros benderfynu bod gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad seilwaith i'w wneud neu wrthod cydsyniad seilwaith.

## Rhan 6 – Gorchmynion cydsyniad seilwaith

### Darpariaeth mewn gorchmynion: cyffredinol

Mae **adran 60** yn nodi'r **hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith**. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- gosod gofynion y gallant fod wedi'u gosod gan unrhyw un o'r cyfundrefnau a ddisodlir gan y broses gydsynio ar gyfer seilwaith a nodir yn y Bil;
- gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â'r datblygiad y rhoddir cydsyniad ar ei gyfer, neu â materion ategol i hynny. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un o'r materion a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1.

Mae'r adran hon hefyd yn nodi'r hyn na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith ei wneud, gan gynnwys creu troseddau penodol.

### Darpariaeth mewn gorchmynion sy'n awdurdodi caffael yn orfodol

Mae **adran 61** yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys **awdurdodi caffael tir yn orfodol**.

Mae **adran 62** yn diffinio'r **tir y caiff awdurdodi caffael yn orfodol ymwneud ag ef**.

Mae **adran 63** yn darparu bod **Rhan 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965** yn gymwys (gydag addasiadau penodedig) i unrhyw orchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol, ond y caiff y gorchymyn ei hun wneud darpariaeth i'r gwrthwyneb

Mae Deddf Prynu Gorfodol 1965 yn nodi'r **weithdrefn ar gyfer trosglwyddo perchnogaeth o'r tir i'r "awdurdod caffael"** (yr awdurdod cyhoeddus neu berson arall a awdurdodir gan y Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith).

Mae **adran 64** cyfyngu ar y ddarpariaeth y caniateir ei gwneud am **ddigolledu am gaffael tir yn orfodol** mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith, yn enwedig digolledu o dan Ddeddfau presennol, megis **Deddf Digollediad Tir 1961**.

Mae **adran 65** yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys awdurdodi **caffael "tir ymgymerwyr statudol" yn orfodol** neu hawl dros dir ymgymerwyr statudol.

Mae **adran 66** yn datgan y bydd gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael **tir a ddelir yn anhrosglwyddadwy gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol** yn orfodol, os bydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gwrthwynebu, yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd (ystyriaeth bellach gan y Senedd).

Mae **adran 67** yn datgan bod rhaid i orchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael **tir sy'n ffurfio rhan o dir comin, man agored** neu randir tanwydd neu ardd gae yn orfodol fod yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd, oni fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un o restr o feini prawf a nodir yn y Bil yn gymwys.

Mae **adran 68** yn ei gwneud yn ofynnol bod gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael **hawl newydd dros dir comin, man agored** neu randir tanwydd neu ardd gae yn orfodol fod yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd, oni fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei fod yn bodloni un neu ragor o feini prawf penodedig.

Mae **adran 69** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson a awdurdodir gan orchymyn cydsyniad seilwaith i gaffael tir yn orfodol neu elwa o greu hawl newydd i roi, i gyhoeddi ac i arddangos **"hysbysiad caffael gorfodol"**.

## Darpariaeth mewn gorchmynion: cyfyngiadau a phwerau penodol

Mae **adran 70** yn pennu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith ddiddymu **hawl tramwy cyhoeddus** oni fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y darperir hawl tramwy arall neu nad yw'n ofynnol.

Mae **adran 71** yn diwygio **adran 205 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016** fel y bo'r pŵer i **drechu hawddfreintiau a hawliau eraill** ar gyfer gwneud gwaith adeiladu neu gynnal a chadw yn gymwys pan fo cydsyniad seilwaith wedi'i roi.

Mae **adran 72** yn datgan na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith ei gwneud

yn ofynnol diddymu hawliau penodol, cyfamodau cyfyngol neu symud ymaith gyfarpar ymgymerwyr statudol onid yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod gwneud hynny’n angenrheidiol.

Mae **adran 73** yn pennu’r amgylchiadau pan gaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith awdurdodi **caffael mewn perthynas â thir y Goron yn orfodol**, gan gynnwys pan fo cydsyniad yn ofynnol gan awdurdod priodol y Goron.

Mae **adran 74** yn datgan na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith awdurdodi **gweithredu gorsaf cynhyrchu trydan** onid adeiladu neu estyn yr orsaf gynhyrchu yw’r datblygiad y mae’r gorchymyn yn ymwneud ag ef, neu ei fod yn cynnwys hynny.

Mae **adran 75** yn datgan na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith awdurdodi **cadw llinell drydan yn osodedig uwchben y ddaear** onid gosod y llinell uwchben y ddaear yw’r datblygiad y mae’r gorchymyn yn ymwneud ag ef, neu ei fod yn cynnwys hynny.

Mae **adran 76** yn datgan na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith awdurdodi **dargyfeirio cwrs dŵr mordwyol** onid yw’n bosibl i lestrau sy’n gyfarwydd â defnyddio’r cwrs dŵr sy’n cael ei ddargyfeirio fordwyo’r darn newydd o gwrs dŵr mewn modd rhesymol gyfleus.

Mae **adran 77** yn datgan na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith awdurdodi **codi tollau sy’n ymwneud â phriffordd** onid os oedd archiad o’r fath wedi’i gynnwys yn y cais am y gorchymyn.

Mae **adran 78** yn nodi’r amgylchiadau pan gaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith ddarparu ar gyfer creu **awdurdod harbwr** neu addasu pwerau neu ddyletswyddau awdurdod harbwr, ac awdurdodi trosglwyddo eiddo, hawliau neu atebolrwyddau o un awdurdod harbwr i un arall.

Mae **adran 79** yn datgan, pan fo gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi **gollwng dŵr**, nad yw’r person y rhoddir cydsyniad seilwaith iddo yn caffael pŵer cyffredinol i gymryd dŵr o’r tarddleoedd y bwriedir i’r gollyngiad a awdurdodir gan y gorchymyn gael ei wneud ohonynt.

Mae **adran 80** yn datgan y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith **dybio y dyroddwyd trwydded forol** o dan **Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009** ar gyfer unrhyw weithgaredd lle Gweinidogion Cymru yw’r awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer.

Mae **adran 81** yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith **ddileu'r gofyniad bod cydsyniad penodol i'w roi** neu dybio bod cydsyniad penodol wedi'i roi.

## Y weithdrefn ar gyfer gorchmynion cydsyniad seilwaith

Mae **adran 82** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru **gyhoeddi gorchymyn cydsyniad seilwaith** mewn modd y maent yn ystyried ei fod yn briodol. Mae'n nodi'r amgylchiadau pan fydd rhaid i orchymyn gael ei gynnwys mewn offeryn statudol. Pan fo hyn yn wir, rhaid i Weinidogion Cymru osod copi ohono a dogfennau penodedig eraill gerbron y Senedd.

## Newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith etc.

Mae **adran 83** yn nodi **diffiniadau** at ddibenion adrannau 84 a 85.

Mae **adran 84** yn rhoi **pŵer i Weinidogion Cymru gywiro gwallau mewn "dogfen penderfyniad"** (h.y. y gorchymyn cydsyniad seilwaith neu'r hysbysiad yn hysbysu'r ceisydd bod ei gais wedi'i wrthod). Mae hefyd yn nodi pryd a sut y caniateir gwneud cywiriadau.

Mae **adran 85** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud **rheoliadau ynghylch y weithdrefn i gywiro gwall** mewn dogfen penderfyniad.

## Gwneud newidiadau i orchmynion cydsyniad seilwaith a'u dirymu

Mae **adran 86** yn nodi **diffiniadau** at ddibenion adrannau 87 ac 88.

Mae **adran 87** yn rhoi **pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, newid a dirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith**. Mae hefyd yn nodi'r amgylchiadau pan ganiateir newid neu ddirymu, ac yn rhoi enghreifftiau o'r pethau y caniateir defnyddio'r pŵer hwn i'w gwneud.

Mae **adran 88** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud **rheoliadau ynghylch y weithdrefn ar gyfer newid a dirymu** gorchmynion cydsyniad seilwaith.

Mae **adran 89** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru **gyhoeddi gorchymyn** a wneir o dan adran 84 neu 87 neu hysbysiad a roddir o dan adran 84 mewn modd y maent yn ystyried ei fod yn briodol, ond os yw'n ofynnol i'r gorchymyn gael ei gynnwys mewn offeryn statudol, rhaid i Weinidogion Cymru osod copi ohono gerbron y Senedd.

Mae adran 90 yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch **digolledu am newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith**.

## Effaith gorchmynion cydsyniad seilwaith

Mae **adran 91** yn nodi manylion am gychwyn a **hyd gorchmynion cydsyniad seilwaith**. Mae darpariaethau penodol yn gymwys pan fo gorchymyn yn awdurdodi caffael tir yn orfodol.

Mae **adran 92** yn datgan y **cymerir bod datblygiad yn dechrau** pan fo "gweithrediad perthnasol" sy'n berthnasol i ddatblygiad yn dechrau cael ei gynnal. Ystyr "gweithrediad perthnasol" yw unrhyw weithrediad, ond mae pŵer yn yr adran hon i Weinidogion Cymru nodi, mewn rheoliadau, y math o weithrediadau nad ydynt yn "weithrediad perthnasol".

Mae **adran 93** yn nodi na chaniateir herio elfennau penodol o'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith oni wneir hynny **drwy adolygiad barnwrol**.

Mae **adran 94** yn darparu y **bydd y gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael effaith** er budd y tir y gwneir y gorchymyn mewn cysylltiad ag ef a phawb sydd, am y tro, â buddiant yn y tir, oni wna'r gorchymyn ddarpariaeth i'r gwrthwyneb.

Mae **adran 95** yn diwygio **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990** (DCGTh) i ganiatáu i'r ceisydd ymrwymo i **gytundebau gydag awdurdodau cynllunio lleol**, yn yr un modd ag y caiff datblygwr sy'n ceisio caniatâd cynllunio o dan DCGTh. Gelwir y cytundebau hyn yn "**rhwymedigaethau cydsyniad seilwaith**".

Mae **adran 96** yn diwygio DCGTh i ganiatáu i berchen-feddiannydd y mae "**tir o dan falltod**" yn cael effaith andwyol arno elwa ar ddarpariaethau presennol DCGTh.

Mae DCGTh yn darparu gweithdrefn sy'n galluogi personau â buddiannau penodol yn y tir o dan falltod i'w gwneud yn ofynnol i "awdurdod priodol" brynu eu buddiant. Caiff yr awdurdod priodol fod yn ymgymerwr statudol neu'n Weinidogion Cymru gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

Ystyr 'malltod' yw lleihau gweithgarwch economaidd, marchnadwyedd neu werthoedd eiddo mewn ardal benodol sy'n deillio o ddatblygiad neu gyfyngiad datblygu disgwyliedig neu bosibl yn y dyfodol o ganlyniad i weithredoedd y sector cyhoeddus. Diffinnir tir o dan falltod at ddibenion cynllunio yn **Atodlen 13** i DCGTh.

Mae **adran 97** yn rhoi **awdurdodiad statudol** i gynnal datblygiad y rhoddir cydsyniad ar ei gyfer gan orchymyn cydsyniad seilwaith ac i wneud unrhyw beth

arall a awdurdodir drwy'r gorchymyn. Mae'n darparu y rhoddir awdurdodiad statudol at y diben o ddarparu amddiffyniad mewn achos sifil a throseddol am niwsans.

Mae **adran 98** yn rhoi hawl i **digolledid mewn achos pan fo amddiffyniad** o awdurdodiad statudol mewn achos sifil neu droseddol am niwsans mewn cysylltiad ag unrhyw waith awdurdodedig. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar y person sy'n cynnal y gwaith awdurdodedig ddigolledu unrhyw berson y mae cynnal y gwaith hwnnw yn cael effaith niweidiol ar ei dir.

Mae darpariaethau perthnasol yn **Neddf Prynu Gorfodol 1965 a Deddf Digolledid Tir 1973** yn gymwys fel y'u pennir yn y Bil.

### Dehongli

Mae **adran 99** yn datgan, yn Rhan 6, fod "**tir**" yn cynnwys buddiant mewn tir neu hawl drosto.

## Rhan 7 – Gorfodi

Mae **adran 100** yn datgan ei bod yn drosedd cynnal datblygiad y mae cydsyniad seilwaith yn ofynnol ar ei gyfer **heb y cydsyniad hwnnw ar waith**. Gall person sefyll treial yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron ac os dyfernir ei fod yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.

Mae **adran 101** yn datgan ei bod yn drosedd cynnal **datblygiad nad yw'n cydymffurfio â thelerau gorchymyn cydsyniad seilwaith**. Gall person sefyll treial yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron ac os dyfernir ei fod yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.

Mae **adran 102** yn nodi **terfynau amser ar gyfer dwyn cyhuddiad** mewn perthynas â'r troseddau a grëir gan adrannau 100 a 101.

Mae **adran 103** yn caniatáu i berson sydd wedi'i awdurdodi gan awdurdod cynllunio lleol perthnasol neu Weinidogion Cymru i **fynd ar dir i asesu a yw trosedd o dan adran 100 neu 101 yn cael ei chyflawni, neu wedi ei chyflawni.** Mae'r adran hon hefyd yn pennu gofynion penodol y mae rhaid i'r person sy'n mynd i mewn i'r eiddo gadw atynt.

Mae **adran 104** yn galluogi ynad heddwch i ddyroddi **gwarant i fynd ar dir** os yw wedi'i fodloni bod sail resymol dros fynd ar dir at ddiben a grybwyllir yn adran 103 a bod mynediad i'r tir wedi'i wrthod neu fod gwrthodiad yn cael ei ddisgwyl yn

rhesymol, neu fod yr achos yn un brys.

Mae'r adran hon hefyd yn pennu gofynion penodol y mae rhaid i'r person sy'n mynd i mewn i'r eiddo gadw atynt.

Mae **adran 105** yn creu **trosedd pan fo person yn rhwystro'n fwriadol** berson sy'n arfer pŵer mynediad o dan adran 103 neu 104. Gall person sefyll treial yn y llys ynadon ac, os dyfernir ei fod yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.

Mae'r adran hon hefyd yn datgan, os perir difrod wrth arfer y pŵer i fynd ar dir, caiff y person sy'n dioddef difrod adennill digollediad oddi wrth yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol neu Weinidogion Cymru (pa un bynnag a awdurdododd y mynediad). Penderfynir anghydfodau gan yr Uwch Dribiwnlys yn unol ag **adran 4 o Ddeddf Digolledïad Tir 1961**.

Mae **adran 106** yn datgan nad yw'r pŵer i fynd ar dir gyda gwarant neu hebddi o dan adrannau 103 a 104 **yn gymwys i dir y Goron**.

Mae **adran 107** yn diwygio **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009** (Deddf 2009) drwy **fewnosod adran 243A newydd**. Mae hyn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru benodi personau i orfodi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 yng Nghymru a rhanbarth glannau Cymru (ac eithrio unrhyw long ryfel Brydeinig). Bydd gan y person penodedig y 'pwerau gorfodi cyffredin' a nodir ym **Mhennod 2 o Ran 8 o Ddeddf 2009**.

## Hysbysiadau gwybodaeth

Mae **adran 108** yn caniatáu i'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol neu Weinidogion Cymru **gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i berson perthnasol** (am drosedd mewn perthynas â thir), ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i berson perthnasol (am drosedd mewn perthynas ag ardal forol Cymru), pan fyddant yn ystyried y gallai trosedd o dan adran 100 neu adran 101 fod wedi'i chyflawni.

Mae'r adran hon hefyd yn pennu manylion am yr hysbysiad, gan gynnwys pa wybodaeth y mae rhaid ei darparu gan y person sy'n ei gael.

Mae **adran 109** yn gwneud **methu â chydymffurfio â gofyniad hysbysiad gwybodaeth** o fewn 21 o ddiwrnodau yn drosedd y caniateir rhoi dirwy yn ei chylch. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn drosedd darparu gwybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol yn ymwybodol neu'n ddi-hid (**trosetdd neillffordd** y caniateir rhoi dirwy yn ei chylch).

### Hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig

Mae **adran 110** yn darparu'r pŵer i'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol neu Weinidogion Cymru ddyroddi **hysbysiad datblygiad anawdurdodedig** pan ddyfernir person yn euog o drosedd o dan adrannau 100 a 101 mewn cysylltiad â thir.

Mae'r adran hon hefyd yn nodi'r hyn y caiff hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i'r person ei wneud i unioni'r sefyllfa, ac mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi materion ychwanegol y mae rhaid eu pennu mewn hysbysiad datblygiad anawdurdodedig.

### Cydymffurfio â hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig

Mae **adran 111** yn caniatáu i berchennog tir wneud cais i lys ynadon am **orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson arall a chanddo fuddiant yn y tir ganiatáu** i'r perchennog gymryd y camau sy'n ofynnol gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig.

Mae **adran 112** yn darparu, pan na fo **camau y mae'n ofynnol eu cymryd gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig wedi'u cymryd** o fewn y cyfnod penodedig, y caiff yr awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru (pa un bynnag a ddyroddodd yr hysbysiad), fynd ar y tir a chymryd y cam(au) eu hunain.

Mae person sy'n rhwystro'n fwriadol berson sy'n arfer ei bŵer o dan yr adran hon yn cyflawni trosedd a gall sefyll treial yn y llys ynadon ac, os dyfernir ei fod yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.

Mae **adran 113** yn datgan, pan fo awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru yn arfer y pŵer o dan adran 112, y cânt **adennill eu costau oddi wrth y perchennog tir**. Ni chaniateir adennill costau oddi wrth y Goron.

### Hysbysiadau stop dros dro

Mae **adran 114** yn rhoi **pŵer i'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol ddyroddi hysbysiad stop dros dro** os yw'n ystyried bod gweithgarwch wedi'i gynnal, neu'n cael ei gynnal, sy'n drosedd o dan adran 100 neu adran 101 a dylai'r gweithgarwch gael ei stopio ar unwaith.

Mae **adran 115** yn datgan **na chaiff hysbysiad stop dros dro wahardd** defnyddio adeilad fel annedd na gwahardd cynnal gweithgarwch sydd wedi'i gynnal am o leiaf bedair blynedd cyn y dyddiad ar yr hysbysiad (gydag eithriadau).

Mae **adran 116** yn datgan bod **hysbysiad stop dros dro yn peidio â chael effaith** ar ôl 28 o ddiwrnodau, neu gyfnod byrrach penodedig os yw'r llys yn caniatáu gwaharddeb o dan adran 119. Ni chaiff awdurdod cynllunio lleol ddyroddi ail hysbysiad na hysbysiad dilynol am yr un gweithgarwch, oni fo wedi dyroddi hysbysiad datblygiad anawdurdodedig neu oni fo wedi dyroddi gwaharddeb.

Mae **adran 117** yn datgan ei bod yn **drosedd cynnal gweithgarwch sydd wedi'i wahardd gan hysbysiad stop dros dro**. Gall person sefyll treial yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron ac os dyfernir ei fod yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.

Mae **adran 118** yn datgan, pan fo gweithgarwch a bennir mewn hysbysiad stop dros dro wedi'i awdurdodi gan orchymyn cydsyniad seilwaith a roddwyd cyn y dyddiad y mae'r hysbysiad yn cael effaith, neu os yw'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol yn tynnu'n ôl yr hysbysiad, y caiff unrhyw berson a chanddo fuddiant yn y tir wneud **hawliad i'r awdurdod cynllunio lleol i gael ei ddigolledu am unrhyw golled neu ddifrod a ddioddefir**.

Mae **adran 119** yn datgan y caiff awdurdod cynllunio lleol perthnasol neu Weinidogion Cymru wneud cais i'r Uchel Lys neu'r llys sirol am **waharddeb i atal gweithgarwch** sy'n drosedd o dan naill ai adran 100 neu adran 101 mewn perthynas â thir. Ni chaniateir dyroddi gwaharddeb o dan yr adran hon yn erbyn y Goron.

### Cyffredinol

Mae **adran 120** yn pennu, yn Rhan 7, mai'r 'awdurdod cynllunio' perthnasol (awdurdod cynllunio lleol) mewn perthynas ag unrhyw dir yw'r **awdurdod cynllunio ar gyfer yr ardal** y lleolir y tir ynddi.

## Rhan 8 – Swyddogaethau atodol

### Ffioedd

Mae **adran 121** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud **rheoliadau ynghylch codi ffioedd** gan awdurdod cyhoeddus penodedig am gyflawni swyddogaeth cydsyniad seilwaith ac am ddarparu gwasanaeth cydsyniad seilwaith.

### Hawl mynediad

Mae **adran 122** yn darparu **pŵer i berson sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru i fynd ar dir i gynnal arolwg** neu gymryd lefelau o dir mewn cysylltiad â'r canlynol:

- cais am gydsyniad seilwaith (neu gais arfaethedig); neu
- gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael yn orfodol y tir hwnnw neu fuddiant ynddo neu hawl drosto.

Mae'r adran hon yn datgan bod trosedd yn cael ei chyflawni os yw person sydd wedi'i awdurdodi i fynd ar dir yn cael ei rwystro'n fwriadol rhag gwneud hynny. Caniateir adennill digollediad am unrhyw ddifrod a berir i'r tir neu'r eiddo gan y person sydd wedi'i awdurdodi i fynd i ar y tir.

Mae **adran 123** yn datgan bod y **pwerau a nodir yn adran 122 hefyd yn gymwys i dir y Goron**, yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth bod y person sy'n arfer y pŵer wedi cael caniatâd i fynd ar y tir naill ai gan berson yr ymddengys fod ganddo'r awdurdod i'w roi neu gan awdurdod priodol y Goron (a ddiffinir yn adran 131).

Nid yw is-adrannau penodedig o adran 122 yn gymwys mewn perthynas â thir y Goron.

## Datganiadau polisi seilwaith

Mae **adran 124** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy hysbysiad cyhoeddedig, **ddynodi dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith**, os yw'n ddogfen sy'n cael ei dyroddi ganddynt ac yn nodi polisi i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar brosiectau seilwaith arwyddocaol. Cânt hefyd dynnu yn ôl y dynodiad drwy hysbysiad cyhoeddedig.

Arwyddocâd dynodi dogfen fel hyn yw bod rhaid i awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith yn unol ag unrhyw ddatganiad polisi seilwaith perthnasol (gweler adran 53).

## Cofrestr o geisiadau a gwasanaethau cyn gwneud cais

Mae **adran 125** yn ei gwneud yn ofynnol i **Weinidogion Cymru gynnal cofrestr gyhoeddedig** o'r canlynol:

- ceisiadau am gydsyniad seilwaith;
- ceisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais y maent wedi'u cael;
- gwasanaethau cyn gwneud cais y maent wedi eu darparu.

Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio lleol wneud yr un peth ar gyfer ei ardal. Cânt hefyd wneud rheoliadau ynghylch ffurf a chynnwys unrhyw gofrestr a darpariaeth arall ynghylch gallu'r cyhoedd i weld dogfennau.

## Ymgyngoreion statudol

Mae **adran 126** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru neu awdurdod archwilio **ymgynghori ag awdurdod cyhoeddus a bennir mewn rheoliadau fel rhan o'r broses archwilio** a chanlyniad hynny yw bod dyletswydd ar yr awdurdod cyhoeddus i roi ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriad hwnnw o fewn amserlen benodedig.

Caiff rheoliadau bennu ffurf a gofynion ymgyngoriadau. Caiff rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus yr ymgynghorir ag ef o dan yr adran hon roi adroddiad i Weinidogion Cymru ynghylch ei gydymffurfedd â'r gofynion ymgynghori.

## Cyfarwyddydau Gweinidogion Cymru

Mae **adran 127** yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi **cyfarwyddyd i awdurdod cynllunio lleol, Corff Adnoddau Naturiol Cymru (CNC) neu awdurdod Cymreig datganoledig** a bennir mewn rheoliadau, wneud pethau mewn cysylltiad â chais.

Caiff rheoliadau ymwneud ag adennill costau y mae awdurdodau cyhoeddus wedi mynd iddynt wrth gyflawni cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

Mae **adran 128** yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n rhoi pŵer iddynt **gyfarwyddo y caniateir datgymhwyso gofynion a osodir gan y Bil hwn** mewn achos a bennir yn y rheoliadau. Rhaid i'r rheoliadau bennu'r gofynion y caniateir eu datgymhwyso a'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd.

## Rheoliadau ar geisiadau'r Goron

Mae **adran 129** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud **rheoliadau a gaiff addasu neu eithrio deddfiadau** sy'n ymwneud â'r weithdrefn sydd i'w dilyn cyn i gais gan y Goron gael ei wneud, gwneud cais gan y Goron a'r broses o wneud penderfyniad ar gyfer cais o'r fath.

## Rhan 9 – Darpariaethau cyffredinol

### Datblygiad

Mae **adran 130** yn nodi **ystyr "datblygiad" at ddibenion y Bil**. Mae popeth sy'n "ddatblygiad" at ddibenion DCGTh hefyd yn ddatblygiad at ddibenion y Bil, ond mae cwmpas "datblygiad" yn cael ei estyn y tu hwnt i hyn mewn rhai ffyrdd.

Mae datblygiad o dan DCGTh yn ymwneud â datblygiad tir ac nid datblygiad yn y môr. Mae'r adran hon yn darparu bod datblygiad o dan y Bil yn cynnwys gweithrediadau a newidiadau defnydd yn y môr (h.y. ardal forol Cymru) ac ardaloedd eraill sydd wedi eu gorchuddio â dyfroedd.

### Tir y Goron

Mae **adran 131 yn diffinio'r termau "tir y Goron"**, "buddiant y Goron", "buddiant y Ddugiaeth" ac "awdurdod priodol y Goron" at ddibenion y Bil. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gwestiwn ynghylch pwy yw awdurdod priodol y Goron mewn perthynas ag unrhyw dir gael ei atgyfeirio i'r Trysorlys, y mae ei benderfyniad yn derfynol.

### Troseddau

Mae **adran 132** yn datgan pan **gyflawnir trosedd o dan adran 28, 100, 101, 109 neu 117 gan gorff corfforedig**mewn amgylchiadau penodol, y bydd uwch-swyddog perthnasol i'r corff yn euog o drosedd (yn ogystal â'r corff corfforedig) ac yn agored i gael ei erlyn.

### Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill

Mae **adran 133** yn cynnwys darpariaeth ynghylch **sut y mae hysbysiadau, cyfarwyddydau a dogfennau eraill i'w cyflwyno**.

Mae **adran 134** yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch **cyflwyno hysbysiad neu ddogfen i berson a chanddo fuddiant mewn tir neu sy'n meddiannu tir**. Mae adran 133 yn gymwys yn ogystal â'r adran hon.

Mae **adran 135** yn pennu bod rhaid cyflwyno unrhyw hysbysiad neu ddogfen sy'n ofynnol gan neu o dan y Bil sydd i'w gyflwyno ar y Goron **i awdurdod priodol y Goron**, ac nad yw'r rheolau ynghylch rhoi hysbysiadau a nodir yn adrannau 133 a 134 yn gymwys.

## Cyffredinol

Mae **adran 136** yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo'r Bil yn gosod dyletswydd i gyhoeddi rhywbeth, fod **rhaid iddo gael ei gyhoeddi ar ffurf electronig**. Nid oes dim yn yr adran hon yn atal y person sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd rhag cyhoeddi mewn ffordd arall yn ogystal â chyhoeddi ar ffurf electronig.

Mae **adran 137** yn nodi y caiff rheoliadau a wneir o dan adrannau 30, 33, 45(6), 60(5), 121 a 126 o'r Bil, gorchymyn cydsyniad seilwaith, neu orchymyn o dan adran 87, gynnwys darpariaeth y byddai **cydsyniad Llywodraeth y DU, neu ymgynghori â hi**, yn ofynnol ar ei chyfer pe baent wedi'u cynnwys mewn Deddf gan y Senedd.

Mae **adran 138** yn datgan bod y **pŵer i wneud rheoliadau yn arferadwy drwy offeryn statudol** ac yn darparu bod offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan adrannau penodedig o'r Bil i'w gwneud o dan y **weithdrefn gadarnhaol** (sy'n golygu bod rhaid i'r Senedd bleidleisio o blaid i'r offeryn statudol ddod yn gyfraith).

Mae **adran 139** yn ei gwneud yn ofynnol i **gyfarwyddyd a roddir o dan y Bil neu yn ei rinwedd fod yn ysgrifenedig**.

Mae **adran 140** yn diffinio **termau penodol a ddefnyddir yn y Bil**.

Mae **adran 141** yn rhoi **pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru** y caniateir ei ddefnyddio i wneud darpariaeth atodol, ddeilliadol, a chanlyniadol a darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

Mae **adran 142** yn cyfeirio at **Atodlen 3 sy'n gwneud darpariaeth o ganlyniad** i'r Bil hwn.

Mae **adran 143** yn gwneud **darpariaeth ynghylch pryd y daw darpariaethau'r Bil i rym**.

Mae **adran 144** yn datgan mai Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 fydd **enw byr y Ddeddf**.

## Atodlen 1 - Darpariaeth sy'n ymwneud â datblygiad neu faterion sy'n atodol iddo

Mae **Atodlen 1** yn cael ei chyflwyno gan adran 60 ac yn rhestru'r **materion y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith wneud darpariaeth ar eu cyfer**.

## Atodlen 2 - Digolledu am newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith

Mae **Atodlen 2** yn cael ei chyflwyno gan adran 90 ac yn gwneud darpariaeth ynghylch **digolledu am newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith**.

## Atodlen 3 - Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

Mae **Atodlen 3** yn cael ei chyflwyno gan adran 142 ac yn nodi **diwygiadau canlyniadol a diddymiadau**.

# 4. Atodiad: Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol, trothwyon a meini prawf cymhwysol

Mae'r tabl isod yn dangos y trothwyon a meini prawf cymhwysol ar gyfer y mathau o seilwaith a bennir fel prosiect seilwaith arwyddocaol yn adrannau 2 i 16.

| Math o brosiect | Trothwy gorfodol |
|---|---|
| Ynni (ar y tir ac ar y môr) | 50MW+ (Ynni gwynt ar y tir)<br><br>50MW – 350MW (Pob prosiect arall) |
| Llinellau trydan uwchben | 132KV ac isafswm hyd o 2KM |
| Priffyrdd sy'n cael cymorth gan Lywodraeth Cymru | Hyd parhaus o fwy nag 1KM |
| Porthladdoedd a harbyrau | Gallu blynyddol i drin mwy na:<br><br>- 50,000 o longau cynwysyddion ag unedau cyfwerth ag ugain troedfedd,<br><br>- 25,000 o longau gyrru i mewn ac allan, neu<br><br>- longau cargo 500,000 tunnell |
| Gwaredu daearegol gwastraff ymbelydrol | Pob gwaith, gan gynnwys ymchwilio a pharatoi |
| Glo brig, nwy glo tanddaearol ac olew a nwy anghonfensiynol | Pob gwaith ymelwa |
| Cyfleusterau nwy naturiol hylifedig a chyfleusterau derbyn nwy | Capasiti storio uwch na 43 miliwn metr ciwbig y diwrnod, neu gyfradd llif uwch na 4.5 miliwn metr ciwbig y diwrnod |
| Rheilffyrdd | 2KM + (Rhediad parhaus) |

| Math o brosiect | Trothwy gorfodol |
|---|---|
| Cyfnewidfeydd rheilffyrdd nwyddau | O leiaf 60ha pan gaiff ei adeiladu ac yn ymdrin ag o leiaf 4 trên nwyddau y diwrnod |
| Meysydd awyr | miliwn + o deithwyr y flwyddyn; 5,000+ o symudiadau cargo'r flwyddyn |
| Argaeau a chronfeydd dŵr | 10 miliwn + metr ciwbig o ddŵr |
| Trosglwyddo adnoddau dŵr | 100 miliwn + metr ciwbig o ddŵr y flwyddyn |
| Gweithfeydd trin dŵr gwastraff | Capasiti sy'n fwy na phoblogaeth o 500,000 |
| Cyfleusterau gwastraff peryglus | 100,000+ tunnell y flwyddyn (Tirlenwi neu gyfleuster storio dwfn)<br><br>30,000+ tunnell y flwyddyn (unrhyw achos arall) |